**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 24 Mehefin 2024**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Glyn Griffiths, Siân Cwper, Bethan Gritten, Cenwyn ap Tomos

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Elin Jones, June Jones

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 13 Mai 2024.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 13 Mai 2024.

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Glyn Griffiths

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 5.1 Y Ganolfan

Cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd a'r ysgol, o ran y bwriad i symud y giât haearn gwyrdd sy'n darparu mynediad i'r Ganolfan ac Ysgol y Garreg.

Mae Cyngor Gwynedd yn fodlon caniatáu symud y giât haearn gwyrdd, cyn belled bod Ysgol y Garreg yn cytuno â hyn, a bod y cyngor cymuned yn gyfrifol am unrhyw gost.

Nid yw pennaeth Ysgol y Garreg yn cytuno fod symud y giât yn syniad da.

Cytunodd y Cynghorydd Bethan Gritten i siarad efo'r pennaeth ar y safle, er mwyn gwneud yn siŵr fod yr hyn a fwriedir yn eglur. - danfon yr e-byst ymlaen

Mae angen chwynnu tu allan i'r Ganolfan, ac fe gytunodd y Cynghorydd Nia Povey i drefnu hyn, cyn yr etholiad cyffredinol ar 4 Gorffennaf 2024.

.

## 5.2 Goryrru Llanfrothen a gosod cyflymder 20 m.y.a.

Parheir i ddisgwyl i gontractwyr Cyngor Gwynedd i osod y llinellau gwyn. Atgoffodd y Cynghorydd June Jones Gyngor Gwynedd o hyn. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymateb drwy ddweud eu bod yn disgwyl dyddiad penodol gan y contractwyr ar gyfer c cyflawni'r

Gan y deallir fod contractwyr yn dod yn fuan i osod llinellau melyn ar y Morfa, cytunwyd y dylid ysgrifennu at Gyngor Gwynedd a gofyn a fedrai'r contractwyr gydlynu'r gwaith o osod llinellau melyn ar y morfa, a'r llinellau ynghanol pentref Llanfrothen.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau gan y cyhoedd ar y cyfyngiad cyflymder 20 m.y.a. ac yn gofyn yn benodol i gymunedau roi gwybod os o'r farn y dylid newid cyflymder ar unrhyw ffordd o 20 i 30, neu o 30 i 20.

Cytunwyd y dylid gofyn i'r cyflymder yn Rhyd ar y B4410 ostwng o 30 i 20 m.y.a..

## 5.3 Mynwent Tan Lan

Mae ail doriad wedi ei wneud yn y fynwent erbyn hyn, a'r fynwent yn edrych yn well.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Nia Povey am dreulio amser yn crafu'r gwair o'r ffordd yn y fynwent, ac am gytuno i gadw llygad ar y fynwent a'i chyflwr bob hyn a hyn.

Cytunwyd na ddylid defnyddio chwyn lladdwyr yn y fynwent, ac fe gytunwyd i osod nodyn yn dweud hyn ger y fynedfa i'r fynwent. Y Cynghorydd Nia Povey i drefnu.

## 5.4 Prosiect Coed Ywen

Bu i Barc Cenedlaethol Eryri gynghori bod angen tocio coed sy'n gordyfu dros y safle y bwriadwyd gosod y ddwy goeden ywen, gan felly leihau'r haul y byddent ei angen i dyfu.

Cytunwyd y medrid ail leoli'r coed bob ochr i'r giât, heb fod yn rhy agos i'r wal fel nad yw eu gwreiddiau yn achosi problem, na chysgod gormodol rhag yr haul.

Awgrymodd Parc Cenedlaethol Eryri y byddai plannu gwrych ar hyd y clawdd yn nhop y fynwent yn syniad da. Fodd bynnag, daethpwyd i'r farn

y byddai hynny'n cynyddu'r gwaith cynnal a chadw wedi iddo dyfu at uchder y clawdd.

**5.5 13 Garreg Frech**

Ysgrifennodd Mabon ap Gwynfor AS i Gyngor Gwynedd yn mynegi pryder nad oedd llythyrau Cyngor Cymuned Llanfrothen am 13 Garreg Frech yn cael eu hateb. Awgrymodd hefyd gyfarfod ar y safle efo swyddogion Cyngor Gwynedd a chynrychiolwyr y cyngor cymuned. Ni chafwyd ateb.

Bu i'r Clerc hefyd ysgrifennu at Bennaeth Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd er mwyn mynegi siom am y diffyg ymateb. Unwaith eto, ni dderbyniwyd ymateb.

Gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio er mwyn gweld a fyddai'n bosibl gwneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am ddiffyg ymateb Cyngor Gwynedd.

Cytunodd y Cynghorydd Nia Povey gysylltu er mwyn gweld os mai Adra oedd berchen y tŷ drws nesaf i 13 Garreg Frech.

**5.6 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen**

Mae'r cais cynllunio wedi ei gyflwyno.

Rhoddodd y Cynghorydd Nia Povey becyn gwybodaeth am y cais cynllunio i'r trigolion gerllaw, gan nad oes gan rhai ohonynt fynediad i'r we.

Cytunwyd efo telerau'r drwydded a baratowyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer defnydd o'r safle.

Y cam nesaf yw cael amcan brisiau am y gwaith o adeiladu'r gysgodfan.

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio**: Siân Cwper

**5.7 Diffribliwyr**

Gosodwyd y ddau ddifribliwr newydd yn Rhyd ac yn Siop a Chaffi Llanfrothen

Codwyd dros £600 hyd yn hyn drwy'r bocs ym maes parcio Croesor a'r Cod QR.

Cytunwyd i olygu'r frawddeg sydd ar yr arwydd ym maes parcio Croesor, drwy roi sticer dros y geiriau 'am eich parcio', er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth, fod y rhoddion am barcio yn hytrach na thuag at y diffribrilwyr. Cytunodd Y Cynghorydd Bethan Gritten i wneud hyn.

**5.8 Llwybr Llanfrothen i Benrhyndeudraeth**

Cytunodd y Cynghorydd Nia Povey i drefnu cyfarfod efo peiriannydd sifil ac aelod lleol o'r cyhoedd i gerdded y llwybr llai uchelgeisiol er mwyn gweld beth sy'n bosibl.

**6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Mai 2024 £239.72

TWE £59.80

**6.2** Cyflog Clerc Mehefin 2024 £239.72

TWE £59.80

**6.3** Costau cyfrif HSBC hyd at 5 Mai 2024 - £8.00

**6.4** yu energy 8 Mai 2024 - £18.27

**6.5** Dunn & Ellis, Anfoneb 155904, 24/04/2024, £61.20

**6.6** Ffi Cais Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri - £115.00

**6.7** Ad-dalu'r Clerc Microsoft 365 - £59.99

**6.8** Treth annomestig Y Ganolfan 2024/25 - £800.85

**6.9** Anfoneb R Jones, trydanydd, tynnu hen focs diffribliwr a gosod un newydd ym Modlondeb, Rhyd, ac yn Siop y Garreg, Llanfrothen - £374.66

**6.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 10 Mai 2024 - £8.00

**6.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 13 Mai 2024 - £60.00

**6.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 16 Mai 2024 - £5.00

**6.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 20 Mai 2024 - £9.00

**6.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 21 Mai 2024 - £2.00

**6.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 28 Mai 2024 - £11.00

**6.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 30 Mai 2024 - £5.00

**6.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 3 Mehefin 2024 - £14.00

**6.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 6 Mehefin 2024 - £2.00

**6.19** Derbyn taliad SumUp i'r banc 7 Mehefin 2024 - £5.00

**6.20** Derbyn taliad SumUp i'r banc 10 Mehefin 2024 - £25.50

**6.21** Derbyn taliad SumUp i'r banc 12 Mehefin 2024 - £3.00

**6.22** Derbyn taliad SumUp i'r banc 13 Mehefin 2024 - £7.00

**6.23** Derbyn taliad SumUp i'r banc 17 Mehefin 2024 - £3.00

**6.24** Balans yn y prif gyfrif 18 Mehefin 2024 £15,651.42

**6.25** Balans yn y cyfrif cadw 18 Mehefin 2024 £22,485.40

## 7. Gohebiaeth

- Llythyr cefnogaeth wedi mynd at Y Dref Werdd - cais i Gronfa'r Loteri - Camu yn ein Blaenau: Datblygu a Grymuso Cymunedau'r Dyfodol
- Llythyr Llywodraeth Cymru terfynau 20 m.y.a. - llythyr yn gofyn i gymunedau roi gwybod ble eu bod o'r farn fod angen newid i derfynau cyflymder. Cytunwyd i ofyn am ostwng y cyflymder yn Rhyd o 30 m.y.a. i 20 m.y.a..

## 8. Cynllunio

Cais Cynllunio NP5/68/238 – Codi lloches newydd ynghyd a phalmentydd cysylltiedig, tir ger Kyffin House, Llanfrothen, LL48 6AQ

Dyma gais y cyngor cymuned am godi lloches fws.

Cais Cynllunio NP5/68/3C – Garth Llwynog, Croesor, LL48 6SR – Tynnu'r ystafell haul presennol a chodi ports ac estyniad un llawr ar yr ochr

Dim gwrthwynebiad

## 9. Materion Eraill

### 9.1 Rheolau Sefydlog

Cymeradwywyd y Rheolau Sefydlog

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Siân Cwper

### 9.2 Rheolau Ariannol

Cymeradwywyd y Rheolau Ariannol

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio**: Glyn Griffiths

### 9.3 Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol ac Adroddiad Archwiliad Mewnol 2023/24

Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ac Adroddiad Archwiliad Mewnol 2023/24

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Nia Povey

### 9.4 Ffurflen Gwrthod/Derbyn Taliad 2024/25

Cyflwynwyd ffurflenni i'r aelodau eu cwblhau, o ran derbyn neu wrthod y taliadau sydd â hawl ganddynt i'w derbyn yn gyfreithiol.

### 9.5 Ceir yn Parcio ar y ffordd i mewn i Benrhyndeudraeth

Mae ceir yn parhau i barcio ar y ffordd i mewn i Benrhyndeudraeth o Lanfrothen.

Mae yna linellau melyn ar y ffordd ac angen i Gyngor Gwynedd sicrhau eu bod yn cymryd camau gorfodi.

### 9.6 Torri Llwybrau Cyhoeddus

Mae llwybrau cyhoeddus angen eu torri, yn enwedig llwybr 13 o Tan Lan i Fferm Brondanw a Llwybr 22 o'r Ring i Ysgoldy Wern.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd, sydd yn gyfrifol am wneud y toriadau.

### 9.7 Dŵr yn llifo ar y ffordd

Mae dŵr yn llifo ac yn casglu ar y ffordd Rufeinig rhwng Croesor a Tan y Bwlch, gyferbyn a'r troad am Hafod Uchaf. Mae wyneb y ffordd yn cael ei erydu, ac ymddengys fod y dŵr yn casglu oherwydd nad yw'n mynd i ddraen neu gyli all fod wedi cau.

Gofynnwyd i'r Clerc roi gwybod i Gyngor Gwynedd.

### 9.8 Cais am Faes Chware yn Llanfrothen

Cysylltodd aelod o'r cyhoedd i ofyn a fedrai'r Cyngor Cymuned gynnig cymorth o ran sefydlu parc chwarae i blant yn Llanfrothen, gan nad oedd cyfleusterau digonol ar hyn o bryd.

Nid oes llecyn gwag addas yn Llanfrothen sy'n ddigon mawr i gynnal lle chwarae. Nodwyd fod rhai trigolion lleol wedi awgrymu cael offer chwarae yn nhafarn Y Ring, fel y buy no flynyddoedd yn ôl. Fodd bynnag, mater i Robinsons a thenant y dafarn fyddai hyn.

Y posibilrwydd arall fyddai sefydlu darpariaeth chwarae newydd yng Ngharreg Frech pe byddai unrhyw ddatblygiad tai yn mynd yn ei flaen yno.

Opsiwn arall fyddai defnyddio'r adnoddau chwarae sydd ar gael yn nghae yr ysgol, y tu allan i oriau'r ysgol. Mae'r cae ar y llwybr cyhoeddus sy'n mynd i'r Morfa.

Awgrymwyd fod yr aelod o'r cyhoedd yn trafod ymhellach efo'r Ring, ac y byddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon cefnogi mewn egwyddor darpariaeth o'r fath.

**9.9 Cyfethol**

Mynegodd aelod o'r cyhoedd ddiddordeb i fod yn aelod. Cytunwyd i ofyn i'r person ysgrifennu nodyn byr yn cyflwyno ei hun ac yn egluro pam yr hoffai fod yn aelod o'r cyngor cymuned, erbyn cyfarfod 2 Medi 2024.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 2 Medi 2024 am 7 yr hwyr**